

## GWYNNE, SACKVILLE (c. 1751 - 1794),

**Enw:** Sackville Gwynne

**Dyddiad geni:** c. 1751

**Dyddiad marw:** 1794

**Rhyw:** Gwryw

**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

aelod o dylwyth mawr Gwynniaid Glanbrân ger Llanymddyfri (aeth y plas ar dân ers tro mawr, ond erys ei adfeilion); am y teulu'n gyffredinol [gweler dan ' Gwynne](#) o Lanelwedd.' Yn ôl [W. R. Williams](#) (*Old Wales*, iii, 286-8), fe'i ganwyd tua 1751 - os felly, y mae'r cyfeiriadau ato, yn *Llyfr Cerdd Dannau* a llyfrau Cymraeg eraill, fel 'hen fonheddwr,' braidd yn gamarweiniol. Priododd, yn Nulyn yn 1772, â merch i un o denantiaid Glanbrân, heb i'w dad wybod, ac am hynny gadawyd rhan o'r stadau i'w frawd iau (1774). Bu f ei wraig yn 1787; ailbriododd yntau yn 1793, ond bu farw yn 1794 cyn geni merch iddo yn Awst yn y flwyddyn honno. Hynodrwydd Sackville Gwynne oedd ei hoffter o'r delyn. Tystia '[Bardd y Brenin](#)' ei fod yn un o'r ddau ganwr gorau yn ei ddydd ar y delyn deires. Yr oedd hefyd yn noddwr telynorion - gweler e.e. dan '[Wood](#)'; ac yng Nglanbrân y bwriadodd y gwneuthurwr telynau John Richards (1711 - 1789) o Lanrwst ei flynyddoedd diwethaf (yn Llanfair-ar-y-bryn y mae ei fedd). Fel y gwelir yn yr ysgrif '[Wood](#),' daliodd nawdd telynorion yng Nglanbrân dan etifedd ysblennydd ac afradus Sackville Gwynne, o'r un enw ag ef.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

